# Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

## Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19
## FI0084/B

Lleoliad: Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint

Dyddiad y Digwyddiad: Mis Hydref 2023

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

## Taflen Rheoli Dogfen

| | |
|---|---|
| **Awdur y Ddogfen** | Elain Jones MEng (Anrh.) GMICE |
| **Gwiriwyd gan** | Aled Williams BSc (Anrh.) MCIWEM C.WEM |
| **Cymeradwywyd gan** | Mike Wellington BEng (Anrh.) MSc CEng CEnv FICE FCIWEM C.WEM IMaPS MAPM |

### Hanes Adolygu

| Dyddiad | Rhif Fersiwn | Crynodeb o’r Newidiadau |
|---|---|---|
| 18/10/2024 | Adroddiad Drafft 1 | Amherthnasol |
| 10/02/2025 | Fersiwn 02 | Diwygiwyd gyda gwybodaeth ychwanegol am system ddraenio ardal Meadowside. |
| 10/06/2025 | Fersiwn 03 | Diwygiwyd i nodi sylwadau’r Awdurdodau Rheoli Risg |
| 10/07/2025 | Fersiwn 04 | Diwygiwyd i nodi sylwadau’r Awdurdodau Rheoli Risg |
| 01/09/2025 | Fersiwn Terfynol | Golygu terfynol gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol |

© 2018-19 Cyngor Sir y Fflint / Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Cedwir Pob Hawl. Mae hawlfraint y ddogfen hon ac unrhyw ran ohoni’n eiddo i Gyngor Sir y Fflint, Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NF (y ‘Perchennog’) ac ni ddylid ei defnyddio, ei gwerthu, ei throsglwyddo, ei chopïo na’i hatgynhyrchu’n llwyr neu’n rhannol ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng i neb, oni wneir hynny’n unol â thelerau cytundeb y Perchennog neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig y Perchennog o flaen llaw.

**Cynnwys**

Crynodeb Gweithredol

1.0 Rhagarweiniad

2.0 Crynodeb o Storm Babet a'i Heffaith

3.0 Braslun o Ardal yr Astudiaeth

4.0 Lleoliadau'r Llifogydd, Disgrifiadau a Phrosesau Gorlifo

5.0 Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol

6.0 Casgliadau

7.0 Argymhellion

**Atodiadau**

Atodiad A Cofnod Ffotograffig
Atodiad B Cofnodion Arolwg Daearegol Prydain
Atodiad C Cynlluniau Carthffosydd Dŵr Cymru
Atodiad D Mapiau Llifogydd CNC

**Ffigurau**

Ffigur 1 - Glawiad Dyddiol Cronnus 18-21 Hydref 2023 yn ôl y Swyddfa Dywydd
Ffigur 2- Mesurydd Glaw Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr Wyddgrug - Glaw dyddiol rhwng 18 a 21 Hydref
Ffigur 3 – Glaw fesul awr rhwng 18 a 22 Hydref
Ffigur 4 - Cynllun Lleoliad Ardaloedd Llifogydd a Adroddwyd
Ffigur 5 – Map o Gyrsiau Dŵr Ardal Meadowside
Ffigur 6 – Map Manwl o Ardal Meadowside
Ffigur 7 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Meadowside
Ffigur 8 – Map o Gyrsiau Dŵr Ardal Queens Park
Ffigur 9– Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Ardal Queens Park
Ffigur 10 – Map o Gyrsiau Dŵr Ardal Holland Cottages
Ffigur 11 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Ardal Holland Cottages (Alun)
Ffigur 12 – Meadowside - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach
Ffigur 13 – Queens Park - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Afonydd, y Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach
Ffigur 14 – Holland Cottages - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Afonydd, y Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach
Ffigur 15 – Alyn Meadows - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Afonydd, y Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach
Ffigur 16 – Disgrifiad o'r Llifogydd - Ardal Meadowside
Ffigur 17 – Ardal Holland Cottages
Ffigur 18 – Ardal Queens Park
Ffigur 19 – Ardal Alyn Meadows

**Tablau**

Tabl 1 - Argymhellion i fynd i'r afael â llifogydd
Tabl 2 - Crynodeb o'r Ymarfer Ymgysylltu Cymunedol a gynhaliwyd yn yr Wyddgrug
Tabl 3 - Crynodeb o Lifogydd yn yr Wyddgrug yn ystod Storm Babet
Tabl 4 - Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol
Tabl 5 - Argymhellion i fynd i'r afael â llifogydd

## Crynodeb Gweithredol

Wedi llifogydd mewn ardaloedd helaeth o Sir y Fflint ym mis Hydref 2023, lluniwyd Adroddiadau Ymchwiliadau Llifogydd dan Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Cafwyd llifogydd mewn amryw rannau o dref yr Wyddgrug; rhai ohonynt yn hydrolegol gysylltiedig â'i gilydd ac eraill mewn mannau heb unrhyw gysylltiad â llifogydd mewn mannau eraill. Lluniwyd dau o Adroddiadau Adran 19 ar wahân, y naill ar gyfer yr ardaloedd hydrolegol gysylltiedig a'r llall ar gyfer yr ardaloedd heb gysylltiadau â llifogydd eraill. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r ardaloedd hynny a gafodd lifogydd nad oeddent yn hydrolegol gysylltiedig â rhai eraill, gan gynnwys Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows yn yr Wyddgrug. Lluniwyd adroddiad arall dan Adran 19 sy'n ymdrin â'r ardaloedd hynny o'r Wyddgrug lle canfuwyd bod y llifogydd yn hydrolegol gysylltiedig â'i gilydd.

Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn bodloni gofynion Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Dan Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'n rhaid i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (Cyngor Sir y Fflint), o gael gwybod am lifogydd yn ei ardal, ac i'r graddau y mae'n barnu hynny'n angenrheidiol neu'n briodol, gynnal ymchwiliad, llunio Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd a'i gyhoeddi.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol am reoli'r perygl o lifogydd lleol sy'n deillio o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin fel nentydd a mân gyrsiau dŵr (gan gynnwys llynnoedd a phyllau).

Mae Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn datgan:

*"Wrth ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae'n rhaid i awdurdod llifogydd lleol arweiniol, i'r graddau a bennir yn briodol ganddo, ymchwilio i ganfod –*

*(a) Pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol, ac*
*(b) A yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd neu'n bwriadu gwneud"*

Yr awdurdodau rheoli perygl llifogydd yn Sir y Fflint yw:

- Cyngor Sir y Fflint
- Adran yr Amgylchedd Sir y Fflint
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dŵr Cymru

Yr Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd perthnasol i'r digwyddiad hwn yw Cyngor Sir y Fflint gan fod y llifogydd wedi deillio'n bennaf o 'gwrs dŵr cyffredin'. Oherwydd y bu llifogydd y tu mewn i dŷ preswyl, mae'n rhaid ymchwilio i'r digwyddiad a llunio adroddiad yn unol â Strategaeth Leol y Cyngor ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd:[1]

Ym mis Hydref 2023, daeth Storm Babet â chyfnodau o law trwm i rannau helaeth o'r Deyrnas Unedig. Yn ôl y Swyddfa Dywydd, rhwng 18 a 21 Hydref oedd y tridiau gwlypaf yng Nghymru a Lloegr ers 1891.

---

https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Flooding-and-Drainage/Local-Flood-Risk-Management-Strategy-2025-Public-Consultation-Draft.pdf

Bu cynrychiolwyr Waterco Ltd, ar ran Cyngor Sir y Fflint, yn ymgysylltu â'r gymuned a chyfathrebu â'r budd-ddeiliaid perthnasol er mwyn deall yr hyn a ddigwyddodd yn ystod llifogydd mis Hydref 2023. Mae'r Adroddiad hwn yn manylu ynghylch y llifogydd hynny.

Ledled ardaloedd Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows yn yr Wyddgrug, cafwyd saith o adroddiadau ynglŷn â llifogydd y tu mewn i dai pobl. Deilliodd y rhan helaeth o'r llifogydd hynny o lefelau uchel y dŵr ffo oherwydd y glaw di-baid a gafwyd yn ystod Storm Babet. Yn sgil hynny roedd y priddoedd yn ddirlawn o ddŵr a lefelau cyrsiau dŵr cyffredin wedi codi, gan beri iddynt orlifo.

Mae'r tabl isod yn nodi'r camau yr argymhellir sy'n ofynnol er mwyn lleihau'r llifogydd a'r budd-ddeiliad y mae'n ofynnol iddo gyflawni pob un o'r camau hynny.

**Tabl 1 - Argymhellion i fynd i'r afael â llifogydd**

| Cyf | Budd-ddeiliad | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| 01 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd | **Ardal Queens Park** - archwilio'r ceuffosydd islaw Cilnant, Parc Hendy a Clayton Road yn gyson a chael gwared â malurion yn ôl y gofyn. Llunio Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer cynnal a chadw ceuffosydd a'i fabwysiadu. |
| 02 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd | **Ardal Holland Cottages** - archwilio pont fwa Black Brook ac i fyny'r sianel yn gyson am falurion a rhwystrau a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblemau. |
| 03 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd | Dal i gynnal a chadw asedau priffyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd â risg uchel. |
| 04 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | **Ardal Meadowside** - adolygu cyflwr y cyrsiau dŵr cyffredin (ceuffosydd) a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblemau. |
| 05 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | **Ardal Meadowside** - ystyried cynllun i ffurfioli'r cysylltiad rhwng dŵr ffo o'r dalgylch i fyny'r nant a'r rhan o'r cwrs dŵr sydd dan geuffos. |
| 06 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | **Ardal Queens Park** - ystyried cynllun i osod rhwyllau newydd, lletach ym mewndwll y geuffos fel nad ydynt yn atal llif y dŵr. |
| 07 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | **Ardal Holland Cottages** - dal i ymchwilio i ganfod yr hyn a achosodd i gwrs dŵr Black Brook orlifo gerllaw'r bont fwa. |
| 08 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y perygl o lifogydd. |
| 09 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Os oes cyllid ar gael, ystyried rhoi dulliau ar waith i reoli llifogydd i fyny'r nant o'r ardaloedd lle bu llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin / dŵr wyneb. |
| 10 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Bod y Cyngor yn arfer ei ddyletswyddau a phwerau caniataol dan y Ddeddf Draenio Tir a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr fel bod dŵr yn llifo'n ddi-rwystr drwy fewndyllau ceuffosydd, cyrsiau dŵr a bod ceuffosydd yn cael eu cynnal a'u cadw i gludo'r llif fel y bwriedir. |
| 11 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Archwilio ac adolygu dyluniad, cyflwr ac addasrwydd yr arglawdd sy'n amddiffyn y tir ger Blackbrook Road (Holland Cottages) rhag llifogydd o afon Alun, i ganfod a yw'n gweithio |

| | | |
|---|---|---|
| | | fel y'i dyluniwyd ynteu a fu Storm Babet yn drech na safon y dyluniad. Efallai y bydd angen gwaith ychwanegol. |
| 12 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau yr archwilir Prif Afonydd yn rheolaidd yn ôl lefel y risg a lle bo'n briodol a bod modd cyfiawnhau hynny, bod Awdurdod Rheoli Risg perthnasol a/neu Berchennog Glannau'r Afon yn dogfennu trefn cynnal a chadw a'i gweithredu. |
| 13 | Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac archwilio rhannau cysylltiedig o'r system garthffosydd cyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / malurion sylweddol yn dilyn digwyddiad mis Hydref 2023. |
| 14 | Dŵr Cymru | Archwilio dyluniad arllwysfa'r garthffos gyhoeddus ar gyfer dŵr wyneb ger Meadowside. Ystyried creu cysylltiad ffurfiol â'r geuffos yn hytrach na bod y dŵr yn arllwys ar y ddaear. |
| 15 | Preswylwyr / Perchnogion Eiddo | Cofrestru am ddim â System Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried rhoi dulliau ar waith i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd. Gallai'r rhain gynnwys gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. |

# 1.0 Rhagarweiniad

1.1 Ers cyflwyno Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yw’r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (yr Awdurdod) dynodedig.

1.2 Dan Adran 19 o’r Ddeddf honno, mae’n rhaid i’r Cyngor, fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, o gael gwybod am lifogydd yn ei ardal, ac i’r graddau y mae’n barnu hynny’n angenrheidiol neu’n briodol, gynnal ymchwiliad a llunio adroddiad.

1.3 Pan mae Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn cynnal ymchwiliad, mae’n rhaid iddo gyhoeddi adroddiad a hysbysu’r awdurdodau rheoli risg perthnasol.

1.4 Mae’r Cyngor wedi comisiynu Waterco i lunio Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd ynglŷn â’r llifogydd yn ardaloedd Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows o’r Wyddgrug yn ystod Storm Babet ym mis Hydref 2023. Achosodd Storm Babet lifogydd y tu mewn a’r tu allan i dai yn yr Wyddgrug. Nid yw’r llifogydd dan sylw yn yr adroddiad Adran 19 hwn yn hydrolegol gysylltiedig â’r llifogydd a gofnodwyd mewn mannau eraill yn yr Wyddgrug yn ystod Storm Babet, ac nid yw unrhyw rai ohonynt yn gysylltiedig â’i gilydd. Lluniwyd adroddiad Adran 19 arall ar gyfer tref yr Wyddgrug yn gyffredinol a’r llifogydd a gafwyd yn ystod Storm Babet lle’r oedd y prosesau gorlifo’n gysylltiedig â’i gilydd.

1.5 The Diben yr Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd hwn dan Adran 19 yw canfod yr hyn a achosodd lifogydd y tu mewn i dai yn ardaloedd Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows o’r Wyddgrug yn ystod llifogydd mis Hydref 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gorolwg ar y prosesau gorlifo, yn nodi’r Awdurdodau Rheoli Risg a budd-ddeiliaid sy’n berthnasol ac yn rhoi rhestr o argymhellion.


1.6 Mae’r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn a’r sylwadau ac argymhellion a wneir yn seiliedig ar asesu’r wybodaeth sydd ar gael.

1.7 Mae’r wybodaeth, y safbwyntiau a’r casgliadau’n seiliedig, yn rhannol, ar y wybodaeth y mae eraill wedi ei darparu i Waterco. Mae Waterco wedi derbyn gyda phob ewyllys da fod y wybodaeth honno’n gywir. Nid yw Waterco yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gasgliadau, tybiaethau na chamau a gymerir yn sgil unrhyw wybodaeth anghywir y mae eraill wedi’i darparu i Waterco.

## 2.0 Crynodeb o Storm Babet a'i Heffaith

### Cyd-destun Cenedlaethol

2.1 Daeth Storm Babet â chyfnodau o law trwm i rannau helaeth o'r Deyrnas Unedig ac yn ôl y Swyddfa Dywydd, rhain oedd y tridiau gwlypaf yn olynol yng Nghymru a Lloegr ers 1891[2]. Fel y gwelir yn Ffigur 1, cafwyd mwy na 50mm o law mewn llawer o rannau o'r Deyrnas Unedig a 75-100mm o law mewn rhannau o ogledd Cymru. Cafodd nifer o ardaloedd ar draws y Deyrnas Unedig fwy na 100% o'r glawiad cyfartalog ar gyfer mis Hydref.




**Ffigur 1 - Glawiad Dyddiol Cronnus 18-21 Hydref 2023 yn ôl y Swyddfa Dywydd**

2.2 Digwyddodd Storm Babet yn ystod cyfnod hwy o law trwm ledled y wlad. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, y cyfnod 9 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024 oedd yr ail wlypaf o unrhyw gyfnod 9 mis a gofnodwyd yng ngogledd Cymru, a'r cyfnod 9 mis gwlypaf a ddaeth i ben ym mis Mawrth. Y cyfnodau estynedig o law yn hytrach na'u nerth oedd yn nodweddu stormydd yn ystod y cyfnod hwn (fel Storm Babet). Rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru 194 o Rybuddion Llifogydd a 3 o Rybuddion Llifogydd Difrifol.


### Cyd-destun Rhanbarthol

2.3 Yn wahanol i'r rhan fwyaf o stormydd, ni wnaeth Storm Babet basio'n gyflym. Roedd hyn yn caniatáu i nifer o ffryntiau ychwanegu mwy o law dros gyfnod estynedig. Roedd y gyfradd anwedd-drydarthu ym mis Hydref yn isel a chafwyd cyfnodau aml o law gydol y mis. Cafwyd lefelau uchel o law ar 13 / 14 Hydref (27mm yn yr Wyddgrug) nes bod y priddoedd bron yn ddirlawn.

[2] Adroddiad Storm Babet https://www.metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/weather/learn-about/uk-past-events/interesting/2023/2023_08_storm_babet.pdf

2.4 Mae cofnodion glaw wedi dod i law o fesurydd glaw Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr Wyddgrug[3].


2.5 Mae ffigur 2 yn dangos y glaw yn y diwrnodau cyn y llifogydd ar 20 Hydref. Cafwyd glaw yn Sir y Fflint ddeuddydd cyn 20 Hydref, gyda 15.2mm o law ar 18 Hydref ac 11.8mm ar 19 Hydref. Ar 20 Hydref, cofnododd mesurydd glaw'r Wyddgrug 61.8mm o law.




**Ffigur 2- Mesurydd Glaw Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr Wyddgrug - Glaw dyddiol rhwng 18 a 21 Hydref**

2.6 Mae Ffigur 3 yn dangos y bu cyfnod o law dwys ddydd Mercher 18 Hydref a ddechreuodd am 19:00pm, gan gyrraedd ei anterth rhwng 21:00-22:00 gyda 5mm o law fesul awr. Fe lawiodd rywfaint hefyd ddydd Iau 19 Hydref; tua 1mm fesul awr yn ei anterth. Bu'n glawio'n gyson ar 20 Hydref a chafwyd 4.2mm mewn awr yn ei anterth.

[3] https://rivers-and-seas.naturalresources.wales/Station/1011?parameterType=2




**Ffigur 3 – Glaw fesul awr rhwng 18 a 22 Hydref**

2.7 Ar sail dadansoddiad o'r Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd, awgrymir bod cyfanswm y glawiad o 61.8mm mewn 24 awr (ar 20 Hydref) fel y cofnodwyd gan fesurydd glaw CNC yn yr Wyddgrug, yn hafal i gyfnod dychwelyd o tua 1 mewn 20 o flynyddoedd.

2.8 Mae'r 73.6mm o law mewn 48 awr rhwng 19 a 20 Hydref (a gofnodwyd gan fesurydd glaw CNC yn yr Wyddgrug) yn hafal i gyfnod dychwelyd o tua 1 mewn 23 o flynyddoedd. Mae'r 88.8mm o law mewn 72 awr rhwng 18 a 20 Hydref yn hafal i gyfnod dychwelyd o tua 1 mewn 39 o flynyddoedd.

2.9 Oherwydd glaw trwm gydol mis Hydref, byddai'r pridd yn brin o le i storio dŵr ac felly byddai llif dŵr ffo wedi cynyddu a chyflymu, gan achosi llifogydd.

## Cyd-destun Lleol

2.10 Ymgysylltodd Waterco â'r gymuned ym Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows yn yr Wyddgrug ar 29 Awst 2024. Diben hynny oedd casglu gwybodaeth am y tai a gafodd lifogydd a'r systemau / ffynhonnell/ffynonellau llifogydd. Yn ogystal â siarad â phreswylwyr, anfonwyd holiadur drwy'r post i geisio barn pobl eto. Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o nifer yr ymatebion a gafwyd.

**Tabl 2 - Crynodeb o'r Ymarfer Ymgysylltu Cymunedol a gynhaliwyd yn yr Wyddgrug**

| Lleoliad | Ymatebion a gafwyd ar lafar (tai) | Nifer yr ymatebion drwy'r post / e-bost |
|---|---|---|
| Meadowside | 1 | 1 |
| Queens Park | 3 | 1 |
| Holland Cottages | 3 | 3 |
| Alyn Meadows | 3 | 0 |

2.11 Yn ogystal ag ymgysylltu â'r gymuned, ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid perthnasol ynghylch unrhyw wybodaeth am lifogydd ym Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows yn yr Wyddgrug:

- **Cyfoeth Naturiol Cymru** – darparwyd gwybodaeth am alwadau a gafwyd yn ystod Storm Babet; cofnod o eiddo y mae'n hysbys iddynt gael llifogydd; a gohebiaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- **Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd** – darparwyd cofnod galwadau yn dangos lle'r oedd aelodau'r cyhoedd wedi rhoi gwybod am lifogydd.
- **Dŵr Cymru** – cyfarfu â Chyngor Sir y Fflint a Waterco ar ôl Storm Babet i rannu manylion am berfformiad asedau a chofnodion llifogydd yn ystod Storm Babet.

2.12 Mae Tabl 3 yn rhoi crynodeb o'r mannau ble cafwyd llifogydd a'r effaith a gafodd hynny, ar sail ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid

**Tabl 3 - Crynodeb o Lifogydd yn yr Wyddgrug yn ystod Storm Babet**

| Lleoliad | Llifogydd Mewnol | Effaith |
|---|---|---|
| Meadowside | 3 | Llifogydd y tu mewn i 3 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 2 o dai eraill. |
| Holland Cottages | 2 | Llifogydd y tu mewn i 2 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 1 tŷ arall. |
| Queens Park | 2 | Llifogydd y tu mewn i 2 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 1 tŷ arall. |
| Alyn Meadows | 0 | Ni chadarnhawyd llifogydd y tu mewn i dai. Cadarnhawyd llifogydd y tu ôl i adeiladau. |
| **Cyfanswm Llifogydd Mewnol a Adroddwyd** | **7** | **Nifer yr achosion o lifogydd mewnol ar sail ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid. Gallai llifogydd fod wedi digwydd mewn tai eraill hefyd heb i neb roi gwybod i Gyngor Sir y Fflint.** |


2.13 Yn Atodiad A, ceir cofnod ffotograffig o’r llifogydd yn ystod Storm Babet ac yn sgil hynny ym Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows yn yr Wyddgrug.

# 3.0 Braslun o Ardal yr Astudiaeth

### Lleoliad

3.1 Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lifogydd gerllaw ardaloedd Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows yn yr Wyddgrug.

3.2 Dengys Ffigur 4 yn fras yr ardaloedd ble cafwyd llifogydd yn ystod Storm Babet sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn.




**Ffigur 4 - Cynllun Lleoliad Ardaloedd Llifogydd a Adroddwyd**
**Yn cynnwys Data’r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)**

### Daeareg


3.3 Yn ôl map ar-lein Arolwg Daearegol Prydain[4] (graddfa 1:50,000), mae’r Wyddgrug yn gorwedd yn bennaf ar ddyddodion arwynebol rhewlifol sy’n gyffredinol yn cynnwys tywod, graean a llifwaddodion sy’n gyffredinol yn cynnwys clai, llaid, tywod a graean. Mae’r creigwely’n gymysgedd o dywodfaen, cerrig llaid, cerrig silt a chlymfaen. Gweler Mapiau Arolwg Daearegol Prydain yn Atodiad B.

[4] Arolwg Daearegol Prydain - https://mapapps2.bgs.ac.uk/geoindex/home.html


**Sefyllfa Hydrolegol**

**Ardal Meadowside**

3.4 Fel y gwelir yn Ffigur 5, mae yno gwrs dŵr dienw dan geuffos i'r dwyrain o Meadowside. Mae'r cwrs dŵr yn llifo i'r dwyrain tua Ffordd Dinbych. Tybir fod y geuffos yn gysylltiedig ag afon Alun. Mae Ffigur 6 yn manylu ynghylch y cwrs dŵr dan geuffos a'r cysylltiadau i fyny'r nant. Credir fod topyn wedi'i osod ym mhen uchaf y geuffos sy'n atal y dŵr rhag llifo'n glir o'r dalgylch i fyny'r nant o Meadowside i'r cwrs dŵr dan geuffos.




**Ffigur 5 – Map o Gyrsiau Dŵr Ardal Meadowside**
Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)




**Ffigur 6 – Map Manwl o Ardal Meadowside**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)

3.5 Mae dalgylch y cwrs dŵr dan geuffos ym Meadowside (a welir yn Ffigur 5 uchod) yn ymestyn dros tua 0.34 cilometr sgwâr. Mae Ffigur 7 yn dangos y dalgylch bras wedi'i gynhyrchu â meddalwedd Scalgo. Dim ond brasamcan o'r dalgylch yw hwn a gallai nodweddion eraill fel draeniau'r briffordd a systemau draenio preifat ymyrryd â'r llif a dargyfeirio'r dŵr.





**Ffigur 7 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Meadowside**

**(ffynhonnell: SCALGO)**

**Ardal Queens Park**


3.6 Fel y gwelir yn Ffigur 8, mae yno gwrs dŵr dienw i'r de o Queens Park sy'n llifo tua'r dwyrain. Mae'r cwrs dŵr dienw'n mynd dan geuffos islaw ffordd Cilnant yng Nghyfeirnod Grid 322953, 363988 a cheuffos arall islaw ffordd Parc Hendy yng Nghyfeirnod Grid 323010, 363967. Mae'r cwrs dŵr yn mynd dan geuffos islaw Clayton Road yng

Nghyfeirnod Grid 323078, 363931 ac yn llifo wedyn tua'r de ddwyrain drwy sianel dan geuffos islaw tref yr Wyddgrug.




**Ffigur 8 – Map o Gyrsiau Dŵr Ardal Queens Park**
Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)


3.7 Mae dalgylch y cwrs dŵr dienw yn Queens Park yn ymestyn dros tua 4.2 cilometr sgwâr. Mae Ffigur 9 yn dangos y dalgylch bras wedi'i gynhyrchu â meddalwedd Scalgo.




**Ffigur 9─ Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Ardal Queens Park**
**(ffynhonnell: SCALGO)**

**Ardal Holland Cottages**

3.8 Fel y gwelir yn Ffigur 10, mae glannau afon Alun i'r de o Holland Cottages ac mae'r afon yn llifo tua'r de ddwyrain. Mae Alun yn brif afon ddynodedig ac mae'n ddyletswydd ar CNC i'w goruchwylio. Mae Black Brook (cwrs dŵr cyffredin) i'r gogledd o Holland Cottages ac yn mynd o dan Blackbrook Road yng Nghyfeirnod Grid: 323157, 365179. Mae un rhan o Black Brook nad yw'n brif afon, sydd wedyn yn llifo tua'r dwyrain i 'brif' sianel Black Brook sy'n brif afon.





**Ffigur 10 – Map o Gyrsiau Dŵr Ardal Holland Cottages**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)

3.9 Mae dalgylch afon Alun yn Holland Cottages yn ymestyn dros tua 100 cilometr sgwâr, sydd wedi'i liwio'n wyrdd yn Ffigur 11. Cynhyrchwyd y map o'r dalgylch â meddalwedd Scalgo[5].

---

[5] Scalgo - https://scalgo.com/




**Ffigur 11 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Ardal Holland Cottages (Alun)**
**(ffynhonnell: SCALGO)**

3.10 Amcangyfrifwyd maint dalgylch Black Brook yn Holland Cottages ar sail data LiDAR a'i arwynebedd yw tua 1.18 cilometr sgwâr.

**Ardal Alyn Meadows**

3.11 Nid oes cwrs dŵr yn gyfagos i ardal Alyn Meadows o'r Wyddgrug. Y cwrs dŵr agosaf yw un o isnentydd afon Alun tua 160 metr i'r dwyrain, ble mae lefel y ddaear tua 3 metr yn is. Bernir bod y perygl llifogydd yn ardal Alyn Meadows yn deillio o ddŵr wyneb.

**Asedau Draenio**

3.12 Cafwyd cofnodion carthffosydd cyhoeddus gan Dŵr Cymru. Dengys y cofnodion hynny fod yno system ddraenio gyfun ar gyfer Queens Park ac Alyn Terrace. Mae gan Meadowside a'r ffordd gyswllt, Alwyn Close, garthffosydd ar wahân ar gyfer dŵr wyneb a dŵr budr. Gwelir bod y carthfosydd dŵr wyneb ym Meadowside ac Alwyn Close yn arllwys ar dir yng Nghyfeirnod Grid: 323161, 364787. Gweler cynlluniau carthffosydd Dŵr Cymru yn Atodiad C.

3.13 Ni welir unrhyw garthffosydd cyhoeddus wrth ymyl Holland Cottages a Holland Farm.

**Mapiau Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru**


3.14 Dengys map CNC, 'Risg Llifogydd o Ddŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach' (Atodiad D) y perygl o lifogydd sy'n deillio o fân gyrsiau dŵr. Mae map CNC yn dangos tir ym Mharthau Llifogydd 2 a 3. Diffinnir Parth Llifogydd 2 fel ardal gyda rhwng 0.1% ac 1% o gyfle o lifogydd o ddŵr wyneb a / neu fân gyrsiau dŵr mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd. Diffinnir Parth Llifogydd 3 fel ardal â mwy na 1% o gyfle o lifogydd o ddŵr wyneb a / neu fân gyrsiau dŵr mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd.

3.15 Mae’r perygl llifogydd a welir ar fap ‘Risg Llifogydd o Ddŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach’ CNC yn seiliedig ar gyfuniad o law a data LiDAR. Mae’r map yn dangos ardaloedd lle gallai dŵr wyneb lifo neu gronni pan mae’n glawio’n drwm.

3.16 Mae map CNC, ‘Risg Llifogydd o Afonydd’ (Atodiad D) yn dangos y perygl llifogydd sy’n deillio o afonydd. Mae map CNC yn dangos tir ym Mharthau Llifogydd 2 a 3. Diffinnir Parth Llifogydd 2 fel ardal gyda rhwng 0.1% ac 1% o gyfle llifogydd o afonydd mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd. Diffinnir Parth Llifogydd 3 fel ardal gyda mwy na 1% o gyfle llifogydd o afonydd mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd.

**Meadowside**

3.17 Dengys mapiau CNC ddŵr yn cronni ar y tir amaethyddol i'r gogledd a'r dwyrain o Meadowside. Dengys Ffigur 12 ehangder y llifogydd ym Meadowside yn ôl map CNC, 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach'.




**Ffigur 12 – Meadowside - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

**Queens Park**

3.18 Dengys mapiau CNC y byddai dŵr sy'n gorlifo o system ceuffosydd Queens Park yn arllwys ar stryd Queens Park ac yn llifo tua'r de ddwyrain yn gyffredinol. Dengys Ffigur 13 ehangder y llifogydd yn Queens Park yn ôl map CNC, Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Afonydd, y Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach'.





**Ffigur 13 – Queens Park - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Afonydd, y Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

### Holland Cottages

3.19 Gwelir fod ardal Holland Cottages yn gorwedd yng ngorlifdir afon Alun. Mae'n bur debyg fod llifogydd yn deillio o Black Brook hefyd, yn enwedig pan mae llif mawr yn afon Alun. Dengys Ffigur 14 isod ehangder y llifogydd yn ardal Holland Cottages.





**Ffigur 14 – Holland Cottages - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Afonydd, y Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

### Alyn Meadows

3.20 Dengys mapiau CNC ddŵr yn cronni ar y tir i’r dwyrain o Alyn Meadows. Ni nodir unrhyw berygl o lifogydd yn Alyn Meadows. Dengys Ffigur 15 ehangder y llifogydd yn ardal Alyn Meadows.




**Ffigur 15 – Alyn Meadows - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Afonydd, y Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach**

Yn cynnwys Data’r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

# 4.0 Lleoliad y Llifogydd, Disgrifiadau a Phrosesau Gorlifo


**Meadowside**

4.1 Ar sail y canfyddiadau yn sgil ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid, bernir bod y llifogydd ym Meadowside wedi deillio o ddŵr ffo'n dod o'r caeau i'r gogledd. Cafwyd llifogydd y tu mewn i dri o dai.

4.2 Soniodd preswylwyr fod llifogydd ar y caeau y tu ôl i'r tai yn aml. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â chyflwr y geuffos a soniwyd efallai bod rhwystr ynddo.

4.3 Gan fod y priddoedd yn ddirlawn o ddŵr cyn Storm Babet, cynyddodd y dŵr ffo o'r dalgylch i fyny'r nant o Meadowside. Tynnodd un o'r preswylwyr lun (Atodiad A) sy'n dangos ehangder y llifogydd ym Meadowside.

4.4 Mae Ffigur 16 yn crynhoi'r llifogydd yr adroddwyd amdanynt.




**Ffigur 16 – Disgrifiad o'r Llifogydd - Ardal Meadowside**
**Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)**

**Holland Cottages**


4.5 Adroddwyd am lifogydd y tu mewn i ddau o dai yn Holland Cottages. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu â'r gymuned yn awgrymu bod y llifogydd wedi deillio o afon Alun, lefelau uchel dŵr daear a rhwystr yng nghwrs dŵr Black Brook ger y bont fwa, ble mae'r cwrs dŵr yn llifo islaw Blackbrook Road.

4.6 Soniodd preswylwyr fod y llifogydd wedi deillio yng nghyffiniau pont fwa Black Brook. Nid yw'n sicr a ddigwyddodd y llifogydd oherwydd rhwystr o dan y strwythur. Soniwyd hefyd fod llifogydd o'r afon wedi peri i systemau draenio preifat orlifo.

4.7 Adeiladodd CNC arglawdd ar lannau afon Alun, y tu ôl i Holland Cottages, ar ôl llifogydd yn 2000. Yn ystod Storm Babet, soniodd preswylwyr fod afon Alun wedi gorlifo i'r cae nesaf a bod y llifogydd efallai wedi gwyro o amgylch yr amddiffynfeydd a llifo'n syth at eu tai, ond prin yw'r dystiolaeth i gadarnhau hynny.

4.8 Soniwyd hefyd am lifogydd o ddŵr daear, a ddeilliodd yn ôl pob tebyg o'r llif mawr yn afon Alun a dirlawnder y ddaear. Mae Ffigur 17 yn crynhoi'r llifogydd yr adroddwyd amdanynt.

4.9 Mae Holland Cottages yn gorwedd yn Ardal Rhybuddion Llifogydd Afon Alun lle cyhoeddir rhybuddion rhag llifogydd, ac yn wir fe wnaed hynny am 11:30 ddydd Gwener 20 Hydref 2023.




**Ffigur 17 – Ardal Holland Cottages**
**Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)**


### Queens Park

4.10 Ar sail y canfyddiadau yn sgil ymgysylltu â’r gymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid, bernir bod y llifogydd yn Queens Park wedi deillio o’r cwrs dŵr dienw sy’n mynd dan geuffos islaw Cilnant, Parc Hendy a Clayton Road yn gorlifo.

4.11 Soniodd preswylwyr bod llifogydd wedi dod o’r cwrs dŵr dienw i’r de o Queens Park. Nid yw’n sicr a ddigwyddodd y llifogydd oherwydd gormodedd o ddŵr yn y sianel ynteu rwystr mewn ceuffos. Mae rhwyll yng nghefnfur y geuffos i fyny’r nant gerllaw Clayton Road ac mae’n hysbys fod malurion yn cronni’n gyflym yno gan gyfyngu ar lif y dŵr.

4.12 Mae Ffigur 18 yn crynhoi’r llifogydd yr adroddwyd amdanynt.

4.13 Mae Queens Park yn gorwedd yn Ardal Rhybuddion Llifogydd Afon Alun lle cyhoeddir rhybuddion rhag llifogydd, ac yn wir fe wnaed hynny am 17:40 ddydd Iau 19 Hydref 2023.




**Ffigur 18 – Ardal Queens Park**
**Yn cynnwys Data’r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)**

## Ardaloedd Eraill

### Alyn Meadows

4.14 Casgliad o flociau o fflatiau gerllaw Milford Street yw Alyn Meadows. Ar sail y canfyddiadau yn sgil ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid, bernir bod y llifogydd yn Alyn Meadows wedi deillio o ddŵr wyneb yn ffoi o dir heb ei ddatblygu i'r de orllewin o'r adeiladau.

4.15 Soniodd preswylwyr y bu llifogydd y tu ôl i'r adeiladau. Ni chadarnhawyd unrhyw lifogydd y tu mewn i'r fflatiau wrth ymgysylltu â'r gymuned. Soniwyd fod dŵr yn cronni yma ac acw mewn pantiau wrth ymyl yr adeiladau (ar waelodion ponciau gwair). Nid yw'r tir yn draenio'n ddigon da ar waelodion y ponciau gwair er mwyn dargyfeirio llifogydd draw o'r adeiladau.

4.16 Mae Ffigur 19 yn crynhoi'r llifogydd yr adroddwyd amdanynt.




**Ffigur 19 – Ardal Alyn Meadows**
**Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)**

### St. David's Lane

4.17 Hysbyswyd y Cyngor o lifogydd mewn un tŷ ar y stryd hon, ond wrth ymgysylltu â'r gymuned rhoes y preswylydd wybod na fu llifogydd mewn gwirionedd, ac felly ni ymchwiliwyd ymhellach i hynny.

# 5 Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol

5.1 Yn y tabl isod ceir manylion y cyfathrebiadau a wnaed â'r bobl berthnasol hyd adeg llunio'r adroddiad hwn. Bernir mai'r bobl berthnasol yw'r holl awdurdodau a budd-ddeiliaid sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli risg llifogydd ac yn gyfrifol am hynny, perchnogion tai y mae'r llifogydd wedi effeithio arnynt, a phawb arall a fedrai ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r ymchwiliad i'r llifogydd.

**Tabl 4 – Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol**

<table>
<tr><th>Cyswllt</th><th>Cyfathrebiadau</th></tr>
<tr><td>Preswylwyr Lleol</td><td>Ymgysylltu â'r gymuned ar 29/08/2024.<br><br>Dychwelwyd holiaduron a lluniau i Waterco.</td></tr>
<tr><td>Cyngor Sir y Fflint</td><td>Rhannu manylion cofnodion galwadau a mannau lle cadarnhawyd llifogydd</td></tr>
<tr><td>Dŵr Cymru</td><td>Cyfarfod ar 19/02/2024 i rannu gwybodaeth am leoliadau a ffynonellau'r llifogydd.<br><br>Anfonwyd Adroddiad Adran 19 i Dŵr Cymru er sylw ar 20/02/2025. Ni dderbyniwyd ymateb na sylwadau hyd yn hyn.</td></tr>
<tr><td>Cyfoeth Naturiol Cymru</td><td rowspan="2">Ymgynghori â CNC drwy e-bost gyda gwybodaeth am leoliadau a ffynonellau'r llifogydd. Rhannodd CNC ddata Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd (galwadau / lleoliadau llifogydd).<br><br>Anfonwyd Adroddiad Adran 19 i CNC er sylw ar 20/02/2025</td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</td></tr>
</table>

# 6.0 Casgliadau

6.1 Comisiynodd Cyngor Sir y Fflint Waterco Cyf i lunio Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd ar gyfer yr Wyddgrug yn dilyn llifogydd yn ystod Storm Babet ar 20 Hydref 2023.

6.2 Roedd y glaw a gafwyd yn ystod Storm Babet yn hir a chyson ac roedd glaw trwm gydol mis Hydref yn golygu bod y pridd eisoes yn ddirlawn o ddŵr, a olygodd fod dŵr ffo'n llifo'n gyflymach.

**Meadowside**

6.3 Cadarnhawyd llifogydd y tu mewn i dri o dai ym Meadowside a ddeilliai o ddŵr wyneb yn ffoi o'r dalgylch i fyny'r nant. Cadarnhawyd llifogydd y tu allan i ddau o dai eraill.

**Queens Park**

6.4 Cadarnhawyd llifogydd y tu mewn i ddau o dai yn Queens Park a ddeilliai o'r cwrs dŵr dienw sy'n mynd dan geuffos islaw Cilnant a Pharc Hendy. Cafodd un tŷ arall lifogydd y tu allan.

**Holland Cottages**

6.5 Cafwyd llifogydd y tu mewn i dai yn Holland Cottages a nodwyd eu bod wedi deillio o afon Alun a Black Brook, sy'n mynd o dan Blackbrook Road. Cafodd un tŷ arall lifogydd y tu allan.

# 7.0 Argymhellion

7.1 Mae Tabl 5 yn nodi'r camau yr argymhellir sy'n ofynnol er mwyn lleihau'r llifogydd a'r budd-ddeiliad y mae'n ofynnol iddo gyflawni pob un o'r camau hynny.

**Tabl 5 - Argymhellion i fynd i'r afael â llifogydd**

| Cyf | Budd-ddeiliad | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| 01 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd | **Ardal Queens Park** - archwilio'r ceuffosydd islaw Cilnant, Parc Hendy a Clayton Road yn gyson a chael gwared â malurion yn ôl y gofyn. Llunio Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer cynnal a chadw ceuffosydd a'i fabwysiadu. |
| 02 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd | **Ardal Holland Cottages** - archwilio pont fwa Black Brook ac i fyny'r sianel yn gyson am falurion a rhwystrau a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblemau. |
| 03 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd | Dal i gynnal a chadw asedau priffyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd â risg uchel. |
| 04 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | **Ardal Meadowside** - adolygu cyflwr y cyrsiau dŵr cyffredin (ceuffosydd) a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblemau. |
| 05 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | **Ardal Meadowside** - ystyried cynllun i ffurfioli'r cysylltiad rhwng dŵr ffo o'r dalgylch i fyny'r nant a'r rhan o'r cwrs dŵr sydd dan geuffos. |
| 06 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | **Ardal Queens Park** - ystyried cynllun i osod rhwyllau newydd, lletach ym mewndwll y geuffos fel nad ydynt yn atal llif y dŵr. |
| 07 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | **Ardal Holland Cottages** - dal i ymchwilio i ganfod yr hyn a achosodd i gwrs dŵr Black Brook orlifo gerllaw'r bont fwa. |
| 08 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y perygl o lifogydd. |
| 09 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Os oes cyllid ar gael, ystyried rhoi dulliau ar waith i reoli llifogydd i fyny'r nant o'r ardaloedd lle bu llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin / dŵr wyneb. |
| 10 | Cyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod | Bod y Cyngor yn arfer ei ddyletswyddau a phwerau caniataol dan y Ddeddf Draenio Tir a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr fel bod dŵr yn llifo'n ddi-rwystr drwy fewndyllau ceuffosydd, |

| | | |
|---|---|---|
| | Llifogydd Lleol Arweiniol | cyrsiau dŵr a bod ceuffosydd yn cael eu cynnal a'u cadw i gludo'r llif fel y bwriedir. |
| 11 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Archwilio ac adolygu dyluniad, cyflwr ac addasrwydd yr arglawdd sy'n amddiffyn y tir ger Blackbrook Road (Holland Cottages) rhag llifogydd o afon Alun, i ganfod a yw'n gweithio fel y'i dyluniwyd ynteu a fu Storm Babet yn drech na safon y dyluniad. Efallai y bydd angen gwaith ychwanegol. |
| 12 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau yr archwilir Prif Afonydd yn rheolaidd yn ôl lefel y risg a lle bo'n briodol a bod modd cyfiawnhau hynny, bod Awdurdod Rheoli Risg perthnasol a/neu Berchennog Glannau'r Afon yn dogfennu trefn cynnal a chadw a'i gweithredu. |
| 13 | Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac archwilio rhannau cysylltiedig o'r system garthffosydd cyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / malurion sylweddol yn dilyn digwyddiad mis Hydref 2023. |
| 14 | Dŵr Cymru | Archwilio dyluniad arllwysfa'r garthffos gyhoeddus ar gyfer dŵr wyneb ger Meadowside. Ystyried creu cysylltiad ffurfiol â'r geuffos yn hytrach na bod y dŵr yn arllwys ar y ddaear. |
| 15 | Preswylwyr / Perchnogion Eiddo | Cofrestru am ddim â System Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried rhoi dulliau ar waith i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd. Gallai'r rhain gynnwys gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. |

# ATODIAD A


## Cofnod Ffotograffig





| Llun Rhif 3 | |
|---|---|
| Dyddiad: 20 Hydref 2023 |  |
| Disgrifiad: Drws cefn eiddo yn Meadowside<br><br>Ffynhonnell: preswylydd Meadowside, yr Wyddgrug | |

| Llun Rhif 4 | |
|---|---|
| Dyddiad: 20 Hydref 2023 |  |
| Disgrifiad: llifogydd yn y cae i gefn Meadowside yn ystod Storm Babet.<br><br>Ffynhonnell: preswylydd Meadowside, yr Wyddgrug | |

| Llun Rhif 5 | |
|---|---|
| Dyddiad: 29 Awst 2024 |  |
| Disgrifiad: amddiffynfa llifogydd yn gwarchod Holland Farm a'r Bythynnod<br><br>Ffynhonnell: Ymweliad safle Waterco | |

| Llun Rhif 6 | |
|---|---|
| Dyddiad: 29 Awst 2024 |  |
| Disgrifiad: amddiffynfa llifogydd yn gwarchod Holland Farm a'r Bythynnod<br><br>Ffynhonnell: Ymweliad safle Waterco | |

| Llun Rhif 7 | |
|---|---|
| Dyddiad: 29 Awst 2024 |  |
| Disgrifiad: cae a therfyn amddiffynfa llifogydd yn gwarchod Holland Farm a'r Bythynnod<br><br>Ffynhonnell: Ymweliad safle Waterco | |

| | |
|---|---|
| **Llun Rhif 8** | |
| **Dyddiad: 29 Awst 2024**<br><br>**Disgrifiad: Cwrs dŵr Black Brook o dan Ffordd Blackbrook**<br><br>**Ffynhonnell: Ymweliad safle Waterco** |  |

[redacted]

| | |
|---|---|
| **Llun Rhif 10** | |
| **Dyddiad: 29 Awst 2024** |  |
| **Disgrifiad: y llwybr tu ôl i Milford Street, yn mynd i lawr tuag at Alyn Meadows.**<br><br>**Ffynhonnell: Ymweliad safle Waterco** | |

[redacted]


[redacted]

# ATODIAD B

## Mapiau Arolwg Daearegol Prydain

# GeoIndex Report

British Geological Survey




Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020


GeoIndex Onshore Data Sources: NERC, Natural England, English Heritage and Ordnance Survey

## Map Key

Bedrock geology 1:50,000 scale

- LEETE LIMESTONE FORMATION - LIMESTONE
- CEFN MAWR LIMESTONE FORMATION - LIMESTONE AND [SUBEQUAL/SUBORDINATE] ARGILLACEOUS ROCKS, INTERBEDDED
- PENNINE LOWER COAL MEASURES FORMATION - MUDSTONE, SILTSTONE AND SANDSTONE
- ETRURIA FORMATION - MUDSTONE, SANDSTONE AND CONGLOMERATE
- LOGGERHEADS LIMESTONE FORMATION - LIMESTONE
- MAIN SHALE BED (LLANGOLLEN AREA) - MUDSTONE
- LLANARMON LIMESTONE FORMATION - LIMESTONE
- NEOGENE ROCKS (UNDIFFERENTIATED) - CLAY, SILT AND SAND
- FOEL FORMATION - LIMESTONE AND [SUBEQUAL/SUBORDINATE] ARGILLACEOUS ROCKS, INTERBEDDED
- ELWY FORMATION - MUDSTONE, SILTSTONE AND SANDSTONE
- ELWY FORMATION - SLUMPED MUDSTONE, SLUMPED SILTSTONE AND SLUMPED SANDSTONE
- CEFN-Y-FEDW SANDSTONE FORMATION - LIMESTONE
- MINERA FORMATION - LIMESTONE AND [SUBEQUAL/SUBORDINATE] SANDSTONE, INTERBEDDED
- GWESPYR SANDSTONE - SANDSTONE AND [SUBEQUAL/SUBORDINATE] ARGILLACEOUS ROCKS, INTERBEDDED
- PENNINE MIDDLE COAL MEASURES FORMATION - MUDSTONE, SILTSTONE AND SANDSTONE
- MINERA FORMATION - SANDSTONE
- CEFN-Y-FEDW SANDSTONE FORMATION - SANDSTONE AND [SUBEQUAL/SUBORDINATE] ARGILLACEOUS ROCKS, INTERBEDDED
- BOWLAND SHALE FORMATION - MUDSTONE
- LLWYN-Y-FRAN SANDSTONE MEMBER - SANDSTONE
- ELWY FORMATION - SANDSTONE
- PENNINE LOWER COAL MEASURES FORMATION - SANDSTONE
- PENNINE MIDDLE COAL MEASURES FORMATION - SANDSTONE
- CEFN-Y-FEDW SANDSTONE FORMATION - CHERT
- ETRURIA FORMATION - SANDSTONE
- HOLLIN ROCK - SANDSTONE

# GeoIndex Report




Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020

GeoIndex Onshore Data Sources: NERC, Natural England, English Heritage and Ordnance Survey

# Map Key

**Superficial deposits 1:50,000 scale**

- GLACIOFLUVIAL DEPOSITS, DEVENSIAN - SAND AND GRAVEL
- GLACIOFLUVIAL ICE CONTACT DEPOSITS, DEVENSIAN - SAND AND GRAVEL
- GLACIOFLUVIAL SHEET DEPOSITS, DEVENSIAN - SAND AND GRAVEL
- TILL, DEVENSIAN - DIAMICTON
- ALLUVIUM - CLAY, SILT, SAND AND GRAVEL
- HEAD - CLAY, SILT, SAND AND GRAVEL
- RIVER TERRACE DEPOSITS (UNDIFFERENTIATED) - SAND AND GRAVEL
- ALLUVIAL FAN DEPOSITS - SAND AND GRAVEL
- LACUSTRINE DEPOSITS - CLAY AND SILT
- PEAT - PEAT
- SUPERFICIAL DEPOSITS - SEDIMENT

# ATODIAD C


## Cynlluniau Carthffosydd Dŵr Cymru

[redacted]

[redacted]

# ATODIAD D

**Mapiau Llifogydd CNC**




Notes:
1) All dimensions are in metres and all levels in metres above Ordnance Datum unless stated otherwise

**LEGEND**

Flood Zones - Rivers
- Flood Zone 1
- Flood Zone 2
- Flood Zone 3





CLIENT:
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

waterco
www.waterco.uk

| SCHEME: | | | |
|---|---|---|---|
| Mold Meadowside, Queens Park, Holland Cottages and Alyn Meadows S19 Flood Investigation Report | | | |
| PLOT TITLE: NRW Flood Zones - Rivers Data published May 2025 | | | |
| PLOT STATUS: FINAL | | | DATE: 02-07-2025 |
| DRAWN: IH | CHECKED: LS | APPROVED: MW | PLOT SCALE AT A3: 1:10000 |
| PLOT NAME: 15972_NRW_Flood_Zones_Rivers | | | REVISION: - |

CONTAINS OS DATA © CROWN COPYRIGHT (2025)
CONTAINS NATURAL RESOURCES WALES INFORMATION © NATURAL RESOURCES WALES AND DATABASE RIGHT. ALL RIGHTS RESERVED. SOME FEATURES OF THIS INFORMATION ARE BASED ON DIGITAL SPATIAL DATA LICENSED FROM THE UK CENTRE FOR ECOLOGY & HYDROLOGY © UKCEH. DEFRA, MET OFFICE AND DARD RIVERS AGENCY © CROWN COPYRIGHT. © CRANFIELD UNIVERSITY. © JAMES HUTTON INSTITUTE. CONTAINS OS DATA © CROWN COPYRIGHT AND DATABASE RIGHT.





Notes:
1) All dimensions are in metres and all levels in metres above Ordnance Datum unless stated otherwise

**LEGEND**

Flood Zones - Surface Water & Small Watercourses

- Flood Zone 1
- Flood Zone 2
- Flood Zone 3




CLIENT:

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

waterco
www.waterco.co.uk

SCHEME:
Mold Meadowside, Queens Park, Holland Cottages and Alyn Meadows S19 Flood Investigation Report


PLOT TITLE:
NRW Flood Zones - Surface Water & Small Watercourses
Data published May 2025

| PLOT STATUS: | DATE: |
|---|---|
| FINAL | 02-07-2025 |

| DRAWN: | CHECKED: | APPROVED: | PLOT SCALE AT A3: |
|---|---|---|---|
| IH | LS | MW | 1:10000 |

| PLOT NAME: | REVISION: |
|---|---|
| 15972_NRW_Flood_Zones_Surface_Water | - |

CONTAINS OS DATA © CROWN COPYRIGHT (2025)
CONTAINS NATURAL RESOURCES WALES INFORMATION © NATURAL RESOURCES WALES AND DATABASE RIGHT. ALL RIGHTS RESERVED. SOME FEATURES OF THIS INFORMATION ARE BASED ON DIGITAL SPATIAL DATA LICENSED FROM THE UK CENTRE FOR ECOLOGY & HYDROLOGY © UKCEH. DEFRA, MET OFFICE AND DARD RIVERS AGENCY © CROWN COPYRIGHT. © CRANFIELD UNIVERSITY. © JAMES HUTTON INSTITUTE. CONTAINS OS DATA © CROWN COPYRIGHT AND DATABASE RIGHT.




Notes:
1) All dimensions are in metres and all levels in metres above Ordnance Datum unless stated otherwise

**LEGEND**

Flood Zones - Sea
- Flood Zone 1
- Flood Zone 2
- Flood Zone 3




CLIENT:

Sir y Fflint Flintshire County Council

waterco

www.waterco.co.uk

SCHEME:
Mold Meadowside, Queens Park, Holland Cottages and Alyn Meadows S19 Flood Investigation Report


PLOT TITLE:
NRW Flood Risk from the Sea
Data published May 2025

| PLOT STATUS: | FINAL | DATE: 02-07-2025 |
|---|---|---|

| DRAWN: | CHECKED: | APPROVED: | PLOT SCALE AT A3: |
|---|---|---|---|
| IH | LS | MW | 1:10000 |

| PLOT NAME: | REVISION: |
|---|---|
| 15972_NRW_Flood_Zones_Sea | - |

CONTAINS OS DATA © CROWN COPYRIGHT (2025)
CONTAINS NATURAL RESOURCES WALES INFORMATION © NATURAL RESOURCES WALES AND DATABASE RIGHT. ALL RIGHTS RESERVED. SOME FEATURES OF THIS INFORMATION ARE BASED ON DIGITAL SPATIAL DATA LICENSED FROM THE UK CENTRE FOR ECOLOGY & HYDROLOGY © UKCEH. DEFRA, MET OFFICE AND DARD RIVERS AGENCY © CROWN COPYRIGHT. © CRANFIELD UNIVERSITY. © JAMES HUTTON INSTITUTE. CONTAINS OS DATA © CROWN COPYRIGHT AND DATABASE RIGHT.




Notes:
1) All dimensions are in metres and all levels in metres above Ordnance Datum unless stated otherwise

**LEGEND**

NRW Recorded Flood Extents




CLIENT:

Sir y Fflint Flintshire County Council

waterco
www.waterco.co.uk

SCHEME:
Mold Meadowside, Queens Park, Holland Cottages and Alyn Meadows S19 Flood Investigation Report

PLOT TITLE:
NRW Recorded Flood Extents
Data published May 2025

| PLOT STATUS: | DATE: |
|---|---|
| FINAL | 02-07-2025 |

| DRAWN: | CHECKED: | APPROVED: | PLOT SCALE AT A3: |
|---|---|---|---|
| IH | LS | MW | 1:10000 |

| PLOT NAME: | REVISION: |
|---|---|
| 15972_NRW_Recorded_Flood_Extents | - |

CONTAINS OS DATA © CROWN COPYRIGHT (2025)
CONTAINS NATURAL RESOURCES WALES INFORMATION © NATURAL RESOURCES WALES AND DATABASE RIGHT. ALL RIGHTS RESERVED.